



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Glan y Môr  
Y Caban  
Ger Ysgol Myfenydd  
Llanrhystud  
Ceredigion  
SY23 5AT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Glan y Môr wedi ei leoli ger Ysgol Myfenydd yn Llanrhystud - pentref bron hanner ffordd rhwng Aberystwyth ac Aberaeron yng Ngheredigion. Mae ganddo ddefnydd o bortacabin sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol gydag ardal tu allan sydd wedi'i datblygu'n dda ar gyfer defnydd y plant. Ar hyn o bryd mae 35 o blant ar y gofrestr, mae 26 yn 3 oed ac yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ceredigion. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 20 o blant. Daw'r plant o Llanrhystud a phentref cyfagos Llannon ac o'r ardal wledig o gwmpas. Ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel prif iaith, er bod sawl achos o un rhiant yn siarad Cymraeg.

Mae Llanrhystud yn bentref arfordirol sy'n nodweddiadol i Gymru, lle nad yw'r teuluoedd yn freintiedig nac yn ddifreintiedig yn gymdeithasol – economaidd. Nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac mae rhai plant wedi cael eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r plant yn mynychu'r lleoliad unwaith y byddant yn 2 ½ oed ac yn parhau yn y lleoliad nes y tymor yn dilyn ei pedwerydd penblwydd. Mae'r Cylch ar agor am 4 bore a phrynhawn yr wythnos (Dydd Llun - Dydd Iau) yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r ffordd i mewn i'r lleoliad trwy dir yr ysgol a dwy giât ddiogel. Mae'r rhieni yn cael mynediad i'r adeilad drwy gyntedd bach lle mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei dangos ar gyfer rhieni. Mae'r brif ystafell yn helaeth, yn gynnes ac yn cael ei chadw'n dda. Mae'n cael ei gwahaniaethu'n briodol i ardaloedd o weithgareddau yn unol â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae cegin ag adnoddau da a thoiledau a chyfleusterau ymolchi ar gyfer y plant. Mae'r lleoliad yn cael ei staffio gan ddau aelod o staff sy'n rhannu'r arweinyddiaeth ynghyd ag aelod o staff a ariennir gan y Cylch a'r awdurdod lleol i gefnogi'r plant sy'n cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae un aelod arall o staff yn gweithio yn ystod y sesiynau prynhawn.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2012. Nid oedd unrhyw argymhellion. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Estyn yn flaenorol yn 2008 ac mae'r holl argymhellion wedi cael y sylw priodol.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

#### *Prif arfarniad*

Mae perfformiad presennol y Cylch yn ragorol oherwydd:

- y gofal, cefnogaeth a'r arweiniad sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- y bartneriaeth gyda'r rhieni a'u cefnogaeth.

Mae perfformiad presennol y Cylch yn dda oherwydd:

- disgwyliadau uchel yr arweinwyr a'r staff sy'n cael eu cyflawni yn ymarferol;
- y cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- cynnydd y plant a'r safonau sy'n cael eu cyflawni yn gyffredinol, yn enwedig eu datblygiad iaith;
- ansawdd yr addysgu;
- agwedd ac ymddygiad y plant;
- yr amgylchedd ysgogol, tu fewn a thu allan, sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sy'n canolbwyntio'n dda ar roi'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant;
- yr ysbryd tîm sy'n amlwg a natur hunan feirniadol y staff;
- y defnydd da o amser;
- ansawdd yr hunanarfarnu;
- yr hanes sefydledig o sicrhau gwelliant;
- y cymorth sy'n cael ei roi gan aelodau'r gymuned;
- y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

- A1 fireinio'r gweithdrefnau asesu ymhellach;
- A2 defnyddio canlyniadau'r asesu i arwain y cynllunio;
- A3 hysbysu rieni o sut y gallant gefnogi addysg eu plant.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ar draws pob maes dysgu yn enwedig yn eu gallu i sgwrsio yn y Gymraeg. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da o ystyried eu "man cychwyn". Mae'r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da ar y cyfan.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau cyfathrebu sydd wedi'u datblygu'n dda ac maen nhw'n gallu mynegi eu teimladau a'u hemosiynau. Mae gan yr holl blant fedrau gwrando da ac yn ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau, fel wrth dacluso ar ddiwedd y sesiwn. Maen nhw'n sgwrsio'n rhwydd gyda'i gilydd ac oedolion yn ystod chwarae digymell a strwythuredig.

Mae'r holl blant yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau. Maen nhw'n gwrando'n astud ar oedolyn yn adrodd stori ac mae llawer yn trîn llyfrau yn ofalus.

Mae'r holl blant yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys pensiliau, sialc a chreonau. Maen nhw'n gwybod am rai o bwrpasau ysgrifennu, fel gwneud rhestrau o'r hyn maen nhw ei angen. At ei gilydd, mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r iaith Gymraeg yn datblygu'n dda.

Mae sgiliau rhifedd rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maen nhw'n deall syniadau mathemategol sylfaenol, fel "llawn, hanner llawn a gwag" wrth chwarae yn y pwll tywod a llenwi cynwysyddion. Mae pob plentyn yn cyfrif yn gywir hyd at o leiaf 15 (y nifer o blant yn bresennol yn cofrestru) yn y Gymraeg ac yn adnabod rhifau ar ffurf ysgrifenedig. Mae'r plant mwy galluog yn adnabod ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn syml a gallant gysylltu'r rhain â siapiau bob dydd, fel cydnabod bod y lythyren "A" fawr yn driongl. Mae'r plant yn gallu ailadrodd a chyfateb patrymau fel wrth osod gleiniau ar linydd gan ddilyn lliwiau a siapiau. Mae gweithgareddau o'r fath yn cael eu gwella drwy chwarae.

Mae'r holl blant yn defnyddio dyfeisiau technoleg digidol fel camerâu ac maen nhw'n ddefnyddwyr cymwys o'r cyfrifiadur a'r iPad. Maen nhw'n gwybod sut i ddefnyddio'r switsys mewn gwahanol ffyrdd a sut i symud siapiau a chynlluniau ar sgrîn y cyfrifiadur.

Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da a da iawn yn yr iaith o'i gymharu â'u man cychwyn. Mae'r trefniadau pontio yn eu galluogi i ddilyn eu haddysg gynradd ac uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae holiaduron y rhieni yn dangos lefel uchel o foddhad â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

## Lles: Da

Mae'r holl blant yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae hyn yn amlwg cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd. Maen nhw'n cymryd rhan ar unwaith mewn gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer ac yn gweithio'n hyderus, yn unigol ac mewn grwpiau bach yn ôl y galw. Maen nhw'n dangos lefelau uchel o hunan-barch a hunan-hyder ac yn sgwrsio'n hyderus gyda'r arolygydd drwy ddisgrifio yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Maen nhw'n barod i ymgymryd â thasgau sy'n cael eu hawgrymu iddynt, ac yn gweld yr ochr ddoniol i'r weithgaredd pan na all yr arolygydd wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud.

Mae'r holl blant yn llawn cymhelliant ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at brofiadau newydd, fel myfyrio ar doddi iâ. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r hyder a'r annibyniaeth mae'r dysgwyr yn eu harddangos.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r profiadau dysgu sy'n cael eu cynllunio yn ennyn diddordeb yr holl blant yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn dangos yn glir yr amcanion dysgu gan nodi'r sgiliau sydd i'w datblygu o fewn cyd-destun y thema sydd wedi'i dewis. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio yn dangos dilyniant a pharhad ac yn ymgorffori syniadau a diddordebau'r plant. Mae dull cyfannol yn sicrhau bod y plant yn dod i werthfawrogi sut mae pwnc yn gallu cwmpasu pob agwedd ar y gwaith. Mae hyn yn cael ei ddangos yn dda gan y pwnc cyfredol ( Y Gaeaf ) sy'n ymgorffori storïau fel " Robin Goch yn Chwilio am Dŷ "; dadmer a thoddi iâ; tirweddau'r gaeaf a geiriau disgrifiadol; dillad y gaeaf a chadw'n gynnes; arddangosfeydd wal a gwaith celf y plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y plant.

Mae'r cynllunio yn hyblyg sy'n galluogi bod syniadau plant yn gallu cael eu dilyn ar unrhyw adeg ac yn cyfateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r berthynas o fewn y lleoalid yn ragorol. Mae'r staff a'r plant yn dangos parch tuag at ei gilydd ac mae'r oedolion yn ymwybodol o anghenion a disgwyliadau plant unigol. Mae teimlad hapus tawel o fewn y lleoliad lle mae'r plant yn dangos digon o hyder i fod yn ddysgwyr annibynnol. At ei gilydd, mae'r plant yn datblygu eu sgiliau meddwl a chreadigol yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau y tu allan yn eu galluogi i gael dealltwriaeth dda iawn o'r byd drwy dyfu a chynaeafu ffrwythau a llyisiau. Maen nhw'n gwybod bod rhaid trin pethau byw gyda gofal a pharch.

Mae'r lleoliad yn darparu'r plant ag ystod o weithgareddau ysgogol sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n llwyddo i ddal eu dychymyg. Mae'r cynllunio yn sicrhau cwricwlwm cydlynol sy'n darparu dilyniant a pharhad yn natblygiad sgiliau'r plant. Er bod pwyslais yn cael ei roi ar ddatblygiad iaith plant ac mae hyn yn llwyddiannus yn datblygu sgiliau cyfathrebu plant yn y Gymraeg, mae rhaglenni sefydledig yn eu lle ar

gyfer datblygu rhifedd ( Rhifedd Synhwyrdd ) yn ogystal â sgiliau eraill, gan gynnwys TGCh .

Mae'r plant yn cael eu herio'n briodol mewn gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored ac maen nhw'n arbrofi gyda phrofiadau newydd, fel rhedeg dŵr i lawr llethrau.

Mae ymweliadau ac ymwelwyr i'r lleoliad yn brofiadau dysgu sydd yn cael eu cynllunio hefyd. Mae cyfleoedd da yn cael eu rhoi i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maen nhw'n dathlu ac yn dysgu am wyliau Cymru, fel Dydd Gŵyl Dewi. Maen nhw'n gwisgo'n briodol, yn cael bwydydd Cymreig a pheintio eiconau perthnasol. Mae'r plant hefyd wedi cymryd rhan yn Eisteddfod y Urdd yn llanerchaeron ac hefyd mewn cyngerdd Nadolig yn y pentre. Hefyd yng charnifal y pentre. Mae astudiaethau, er enghraifft, o'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn rhoi syniad iddynt o ddiwylliannau eraill.

### **Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth fanwl o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt brofiad sylweddol o weithio gyda phlant ifanc. Maen nhw'n ymwybodol iawn o anghenion gwahanol y plant ac o'r gwahanol gamau yn eu datblygiad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl blant ac mae'r staff yn canolbwyntio'n llawn ar sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd eu potensial llawn pa beth bynnag yw eu gallu. Mae hyn yn gryfder nodedig o'r lleoliad a'i ddarpariaeth.

Mae'r staff yn deall gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac yn rhoi cyfleoedd cyson dda yn ymarferol i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u cyfeirio neu eu harwain gan oedolion. Mae'r staff yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael y plant i weithio'n annibynnol. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i herio plant ac i ddatblygu eu hiaith. Mae'r staff yn fodol i iaith da ac yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio ac fel ffordd o gyfathrebu. Mae ymarferwyr ychwanegol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn darparu gwelliant amlwg yng nghynnydd y plant .

At ei gilydd, mae'r staff yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, heriol a chyffrous ar gyfer y plant sy'n llwyddo i'w hannog i gymryd rhan a mwynhau.

Mae'r plant yn cael eu hasesu'n reolaidd ac mae arsylwadau o gyflawniadau'r plant yn cael eu cofnodi'n ddyddiol ar daflenni cofnod unigol y plant. Mae hwn yn gofnod defnyddiol sy'n mesur cynnydd y plant. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn ddigon manwl o ran nodi datblygiad sgiliau plant unigol, ac nid yw'n cael ei ddefnyddio yn ddigonol yn y cynllunio er mwyn nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol. Nid yw'r gweithgareddau sy'n dilyn yr asesiadau'n cael eu cynllunio bob amser i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Roedd y rhieni wedi nodi eu bodlonrwydd gyda chynnydd a chyflawniad eu plant ond nid ydynt bob amser yn ymwybodol o'r hyn y gallent ei wneud i'w helpu i wella ac i fod yn bartneriaid yn eu dysgu, er enghraifft yn eu datblygiad iaith.



## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae trefniadau rhagorol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles plant ac i gefnogi eu dysgu.

Mae gan y lleoliad bolisiâu a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach, i annog plant i ymddwyn yn gynaliadwy ac i sicrhau lles plant.

Mae'r rhieni yn cymryd rhan weithredol ac yn llwyr gefnogol o'r cyfraniad sy'n cael ei wneud gan y lleoliad i sicrhau datblygiad eu plentyn – maen nhw'n gwerthfawrogi hyn hefyd.

Mae'r plant yn dangos eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad; mae teimlad cynnes o gymuned sy'n hyrwyddo ymdeimlad o les ac o berthyn .

Mae'r plant yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd am y byd y maen nhw'n byw ynddo ac yn dysgu gofalu am bethau byw. Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch, ac yn galluogi'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir.

Mae'r plant yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb, i rannu ac i ddangos blaengaredd, i ddilyn rheolau syml o ymddygiad ac i fod yn gyfrifol. Nodwedd dda a nodedig yw'r hunan - ddisgyblaeth mae'r plant yma sy'n dair blwydd oed wedi ei datblygu.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol lleol fel sioeau lleol ac Eisteddfodau ac mae hyn yn gwella eu hysbryd cymunedol.

Mae'r trefniadau diogelu wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithlon. Mae asesu risg yn cael ei wneud yn ôl y gofyn ac mae'r lleoliad yn ddiogel. Mae'r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol mewn amddiffyn plant, ynghyd â chyrsiau eraill fel Cymorth Cyntaf. Mae'r staff yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau ac mae'r lleoliad yn hyrwyddo arfer ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogleu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos o bryder.

Agwedd ragorol ac arloesol o ddarpariaeth y lleoliad yw ei weithdrefnau ar gyfer cefnogi plant sydd efallai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau ar gyfer cefnogi plant o'r fath yn eu lle. Mae plant o'r fath yn cael mynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm, ac yn ôl yr angen yn cael cymorth ychwanegol sy'n cael ei ariannu gan y lleoliad a'r awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu cymorth 1:1 o ansawdd, gosod targedau ac adolygiadau rheolaidd gyda chyfranogiad llawn y rhieni. Mae gwasanaethau arbenigol yn cymryd rhan yn ôl yr angen.

Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei hymestyn yn ddiweddar ac ar hyn o bryd yn darparu darpariaeth hynod effeithiol ac arloesol sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y lleoliad, gwasanaethau arbenigol a rhieni .

Gall unrhyw riant sy'n dymuno cwrdd â staff arbenigol yn gwneud hynny yn gyfrinachol yn y Cylch. Mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd bob tymor ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer riant (a plentyn) i gwrdd yn anffurfiol ag arbenigwr o'r sir mewn amgylchedd hamddenol, cyfarwydd sydd ddim yn fygythiol. Mae gan hyn hefyd y fantais o ymyrraeth gynnar lle mae gweithdrefnau adferol yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar yn natblygiad y plentyn. Ar y llaw arall, gall rhieni fod yn dawel eu meddwl os nad oes angen gweithredu. Ar hyn o bryd mae'r ymateb gan rieni wedi bod yn ffafriol iawn ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r hyn sydd wedi cael ei drefnu ar eu cyfer.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn lledaenu'r arfer hwn sy'n cael ei ddefnyddio gan staff yr awdurdod fel enghraifft o fenter arloesol y gall lleoliadau eraill fabwysiadu.

At ei gilydd, mae hyn yn arfer rhagorol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae'r holl blant beth bynnag eu cefndir neu allu yn cael hawl gyfartal i'r holl weithgareddau. Mae gwahanol ddiddordebau'r plant yn cael eu cydnabod ac mae'r staff yn trin y plant fel unigolion sydd â nodweddion ac anghenion eu hunain.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n hael gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol. Maen nhw wedi eu sefydlu'n dda ac mae ganddynt wybodaeth fanwl o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y lleoliad awyrgylch cartrefol lle mae'r plant yn profi anwylydeb. Mae agwedd oddefgar yn amlwg heb unrhyw dystiolaeth o ymddygiad gormesol neu ymddygiad gwrth - gymdeithasol .

Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd uchel sy'n cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i ddatblygiad y plant. Mae'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r plant yn elwa o ardal chwarae a gardd sy'n gyfagos i'r brif ystafell ddysgu. Mae gan y plant ddillad priodol ar gyfer yr awyr agored ac maen nhw'n defnyddio'r ardal allanol yn ddyddiol. Nid oes mynediad rhydd i'r amgylchedd allanol. Y tu allan, mae amrywiaeth o offer symudol a sefydlog ar gyfer y plant. Mae'r gwelyau uchel yn cael eu defnyddio ar gyfer tyfu llyisiau a ffrwythau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer arddangosfeydd mewn sioeau garddio lleol ac ar gyfer coginio. Mae'r lleoliad yn elwa o gyfraniad dau arddwr lleol sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn arddangos synnwyr cryf o ddiben sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau ar gyfer y plant. Mae'r cyfrifoldebau arweinyddol yn cael eu rhannu gan ddau aelod o staff sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon iawn.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac yn derbyn ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol.

Mae amser yn cael ei reoli'n dda gydag ychydig iawn o amser yn cael ei wastraffu. Mae gan y tîm ddisgwyliadau uchel ac maen nhw wedi gosod targedau heriol ond realistig ar gyfer eu hunain. Mae'r rhain wedi cael eu cyflawni. Nodwedd dda a nodedig o arddull yr arweinyddiaeth yw eu perthynas waith agos gydag asiantaethau eraill a rhieni.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Rheoli. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth ac yn galluogi pawb i fod yn gwbl gyfarwydd â gweithgareddau yn y dyfodol.

Drwyddi draw, mae'r lleoliad yn arddangos ethos cadarnhaol lle mae cyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi. Mae'r amcanion clir yn canolbwyntio ar anghenion y plant ac mae'r canlyniadau yn cael eu monitro a'u gwerthuso. Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a Bwyta'n Iach wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad ddiwylliant o hunanarfarnu a system sefydledig o gynllunio datblygiadol. Mae'r staff wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i werthuso'r ddarpariaeth. Mae'r staff yn hunan-feirniadol ac yn ystyried safbwyntiau ei gilydd, rhieni, y pwyllgor rheoli ac ymgynghorwyr yr awdurdod lleol.

Mae'r cynlluniau datblygu yn cael eu gosod yn erbyn targedau clir ac mae'r meini prawf llwyddiant yn cael ei nodi. Mae'r materion yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen ac mae'r lleoliad yn elwa o'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan aelodau o'r gymuned.

Mae'r lleoliad ar hyn o bryd yn enghraifft o arfer dda ac yn adlewyrchu'r gofal a'r sylw sy'n cael eu rhoi i nodi meysydd i'w datblygu.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae safonau'r plant ac yn enwedig eu lles yn cael eu gwella yn sylweddol gan ansawdd y bartneriaeth sydd wedi'i sefydlu. Mae'r arfer ragorol sydd wedi'i sefydlu yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng y rhieni â staff arbenigol o'r awdurdod lleol ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan y rhieni yn fawr iawn, wedi lleihau eu pryderon am eu plant ac yn rhoi cymorth arbenigol yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae'n arwain at well gefnogaeth o'r plant ac ymyrraeth gynnar. Fel y soniwyd (2.3), mae hyn yn cael ei rannu gan yr awdurdod lleol fel enghraifft o arfer dda.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli gyda'r gymuned leol ac mae'r plant yn chwarae rhan weithredol yn yr eisteddfod leol (Urdd) a sioeau garddwriaethol a charnifalau er enghraifft. Mae unigolion o'r gymuned yn cefnogi'r lleoliad, fel helpu gyda'r garddio.

Mae cysylltiadau cryf a gwerth chweil yn bodoli gyda'r ysgol gynradd gyfagos. Mae staff o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad, mae plant o'r lleoliad yn mynychu cyngherddau'r ysgol ac yn ymweld cyn trosglwyddo yno. Mae'r Cylch hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol. Drwyddi draw, mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant.

Mae'r lleoliad yn elwa'n sylweddol o'r gefnogaeth a'r cyngor sy'n cael eu darparu gan swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn gwneud defnydd da o gyrsiau datblygiad proffesiynol ac mae'r addysgu yn adlewyrchu rhai o'r syniadau arloesol a geir o hyfforddiant o'r fath. Mae'r staff yn hunan-feirniadol ac yn cefnogi ei gilydd. Mae diwylliant o werthuso cyfraniad pob ymarferydd a hanes o rannu arfer dda. Mae effaith yr hyfforddiant proffesiynol yn amlwg yng ngwaith y lleoliad.

Mae adnoddau'r lleoliad yn briodol a'r staffio'n hael. Mae'r staff yn brofiadol ac yn wybodus o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser ac yn cefnogi ei gilydd.

Mae hon yn gymuned ddysgu sefydledig sy'n darparu darpariaeth o ansawdd da ar draws y lleoliad. Canlyniad hyn yw bod y plant yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da.

Mae'n cael ei reoli yn effeithiol a'r mae'r adnoddau yn cael eu defnyddio'n dda. Ar y cyfan, mae'r penderfyniadau ariannol yn cael eu harchwilio gan y pwyllgor rheoli ac mae'r cyllid mewn cyflwr da.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

denotes the benchmark - this is a total of all responses since September 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'ngryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'ngryf	Don't know Ddimyngwybod	
Overall I am satisfied with the setting.	18	16 89%	2 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r lleoliadyngyff redinol.
		80%	19%	0%	0%		
My child likes this setting.	18	15 83%	3 17%	0 0%	0 0%	0	Mae fymhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.
		85%	15%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the setting.	18	18 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fymhlentyn gymorthi ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad.
		86%	13%	0%	0%		
My child is making good progress at the setting.	18	16 89%	2 11%	0 0%	0 0%	0	Mae fymhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
		80%	18%	1%	0%		
Children behave well in the setting.	18	13 72%	4 22%	0 0%	0 0%	1	Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
		70%	26%	1%	0%		
Teaching is good.	18	17 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r raddysgyrdd.
		79%	18%	0%	0%		
Staff treat all children fairly and with respect.	18	17 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gydapharch.
		82%	16%	0%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	18	11 61%	6 33%	0 0%	0 0%	1	Caiff fymhlentyn ei annog i fod yniach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		73%	22%	0%	0%		
My child is safe at the setting.	18	16 89%	2 11%	0 0%	0 0%	0	Mae fymhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
		85%	15%	0%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	16	12 75%	3 19%	0 0%	0 0%	1	Mae fymhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		64%	25%	1%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'ngryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'ngryf	Don't know Ddimyngwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	17	10 59%	5 29%	2 12%	0 0%	0	Rwy'ncaelgywbodaethgyso n am gynnyddfymhlentyn.
		63%	30%	5%	1%		
I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.	18	16 89%	2 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'nnteimlo'ngysurusynglŷ n â gofyncwestiwni'r lleoliad, gwneudawgrymiadauneuno di problem.
		80%	18%	1%	0%		
I understand the setting's procedure for dealing with complaints.	18	10 56%	4 22%	1 6%	0 0%	3	Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion.
		62%	30%	3%	1%		
My child is well prepared for moving on to school.	17	15 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'ndd aargyfersymudymlaeni'rysg ol.
		71%	23%	1%	0%		
There is a good range of activities including trips or visits.	18	14 78%	3 17%	1 6%	0 0%	0	Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuym weliadau.
		62%	30%	4%	0%		
The setting is well run.	18	17 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r lleoliadyncaeleiredegy ndda.
		82%	17%	1%	0%		

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.



<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.